

Cydraddoldeb ac
Amrywiaeth
Equality and Diversity



Cynllun Cydraddoldeb
Blynyddol
2019 – 2020



monmouthshire
sir fynwy

Cynnwys

Rheoli Fersiwn	1
Rhagair	2
Cyflwyniad.....	3
Amcanion Cydraddoldeb Strategol: Cynnydd 2019- 20.....	6
Cyflawni'r Dyletswyddau Penodol	11
Atodiadau.....	15

Adroddiad Cyflogau'r Rhywiau
Cyfathrebu â thrigolion Sir Fynwy sydd â nodweddion gwarchoddedig

Rheoli Fersiwn

Teitl	Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2 Cyngor Sir Fynwy Monmouthshire County Council Strategic Equality Plan 2 fourth Annual Monitoring Report 2019 - 2020
Pwrpas	Dogfen gyfreithiol sy'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Perchennog	Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi'r Iaith Gymraeg
Cymeradwywyd gan	Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2 a gymeradwywyd yn wreiddiol gan y Cyngor
Dyddiad	18/12/2020
Rhif Fersiwn	1.0
Statws	Cymeradwywyd neu anghymeradwywyd
Amledd Adolygu	Blynyddol
Dyddiad yr adolygiad nesaf	18/12/2021
Ymgynghoriad	Fforwm Mynediad i Bawb, Fforwm 50 +, Pwyllgor Dethol Cymunedau Cadarn, Grwpiau Cynhwysiant Sir Fynwy x 2, Tîmoedd Rheoli, Mewnol (Yr Hyb), allanol (gwefan y cyngor a chyfryngau cymdeithasol).

Fformatau Amgen

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor ar

<https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity>

Os oes angen copi caled o'r ddogfen hon neu gopi arnoch mewn fformat gwahanol, e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, fformat geiriau ar gyfer darllenwyr sgrin ac ati cysylltwch â:

Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi'r Iaith Gymraeg
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

Ffôn: 01633 644010

E-bost alanburkitt@monmouthshire.gov.uk

Rhagair

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwmo i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn. Mae'r camau rydym ni'n eu cymryd fel cyngor yn helpu i lunio'r lle rydym ni'n byw ac yn gweithio ynddo. Yn aml, ystyrir bod Sir Fynwy yn gefnog ond mae hynny'n aml yn cuddio amrywiadau sylweddol ym mhrofiadau pobl. Rydym yn credu mewn cyfiawnder cymdeithasol ac wedi ymrwmo i gymdeithas deg a chyfartal. Mae'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn disgrifio'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni i wireddu hyn. Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cwmpasu'r amcanion o fewn y cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ôl yn 2016. Mae ei gyhoeddi yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ond yn bwysicach fyth, rydym yn gwneud hyn oherwydd ein bod wedi ymrwmo i fod yn atebol am ein gweithredoedd.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu amseroedd heriol, dim ond os ydym yn gweithio gyda phawb y gallwn helpu pobl a chymunedau i gyflawni eu potensial, gan dynnu ar yr amrywiaeth o arbenigedd, profiad ac egni y mae Sir Fynwy yn falch ohonynt. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein penderfyniadau polisi, ein darpariaeth o wasanaethau a'n hymddygiadau yn ystyried yn llawn yr effaith y maent yn ei chael ar bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Rwy'n gobeithio y gallwch chi weld o'n henghreffftiau o arfer da yn yr adroddiad hwn fod y cyngor yn parhau i weithio'n hynod o galed i gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion sy'n dod o dan ymbarél y nodweddion gwarchoddedig. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi dechrau modelu effeithiau cronus posibl newidiadau ar grwpiau ac wedi gwella ein cyfrwng asesu effaith integredig i ystyried y ddyletswydd gymdeithasol - economaidd newydd.

Rwy'n eich annog i edrych ar y cynllun hwn a gweld drosoch eich hunain rai o'r pethau rydym ni wedi bod yn eu gwneud.



Y Cynghorydd Sara Jones

Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn ymdrin â chynnydd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Ers hynny rhagorwyd ar yr amcanion y mae'n eu cynnwys gan ein trydydd cynllun cydraddoldeb strategol ond deil yn bwysig ein bod yn adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed fel y gallwn fod yn atebol am gyflawni'n nodau a defnyddio'r gwerthusiad i'n helpu i dargedu gwelliannau yn y dyfodol.

Gallwch gyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf ar

<https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/>

Dolenni i'r strategaethau

Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020 y Cyngor gan y Cyngor ar 3^{ydd} Mawrth 2016. Mae'n bwysig nodi nad yw'n gynllun annibynnol ac mae ganddo gysylltiadau agos â nifer o bartneriaethau, strategaethau, cynlluniau a pholisïau cenedlaethol allweddol eraill y Cyngor. Mae rhai o'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb ac mae eraill wedi cynnwys cydraddoldeb fel un o'r themâu allweddol. Dyma enghreifftiau:

- Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol 2017 – 2022
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- “Strategaeth Mwy na Geiriau”/”More than words strategy” 2011 a 2016
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2011-21
- Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru Cam 3
- Cynllun Llesiant Cyngor Sir Fynwy 2018
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 1af Ebrill 2016
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 nid yn unig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol a amlygir isod, ond mae hefyd yn rhoi cyfle iddo ddangos ei ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb sydd wedi bod yn nodwedd o'i swyddogaethau cyn gweithredu'r Deddf.

Ein Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol

Mae Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol y Cyngor yn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i bobl a chymunedau'r sir. Mae wedi cael ei gyrru gan awydd y Cyngor i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a amlygwyd yn yr asesiadau o lesiant ac anghenion y boblogaeth a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dilyn pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae tri amcan i'r strategaeth:

:

- Rhoddi'r Dechrau Gorau Posib mewn Bywyd i Blant, Gorchfygu Rhwystrau i Gyrhaeddiad a Chyfle .
- Gorchfygu Anghydraddoldebau mewn Mynediad i Ffyniant Economaidd
- Mynd i'r afael ag Aflwydd Unigrwydd ac Ynysigrwydd

Mae'r cynllun cydraddoldeb strategol yn asio â'r strategaeth hon, gan ddarparu mwy o fanylion am rai o'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y sir.

Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010

Wrth gyflawni'i swyddogaethau mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i:

1. ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
3. feithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt;

Mae'r Ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- Dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i bobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Pwrpas eang y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, fel y Cyngor hwn, wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, a chynorthwyo tryloywder. Yng Nghymru mae'r dyletswyddau penodol wedi'u gosod gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae rhestr o'r dyletswyddau penodol yn dilyn:

- Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol
- Ymgysylltu
- Asesiad effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau cyflog a hyfforddiant staff
- Caffael
- Cofnodi a chyhoeddi

Amcanion cydraddoldeb strategol Sir Fynwy 2016-20

Yr amcanion oedd yn eu lle yn ystod y cyfnod i 2016 i 2020 oedd:

1. **Gwneud gwahaniaeth** – Gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig
2. **Cadw'n ffocws** – Er gwaethaf amseroedd heriol mae'n rhaid i ni gadw'n ffocws ar y bobl fwy agored i niwed rydym ni'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer.
3. **Dathlu a Chofio**– mae'n bwysig ein bod yn dathlu / cydnabod digwyddiadau / ymgyrchoedd cydraddoldeb allweddol sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn dangos ein parch fel sefydliad.
4. **Addysgu ac arwain** – gweithio'n glos gyda'r staff a'r Aelodau Etholedig sy'n cynnig hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.
5. **Gwneud y pethau sylfaenol** – mae'n rhaid i ni wneud yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amcanion Cydraddoldeb Strategol: Cynnydd

2019-20

Mae'r adran hon yn disgrifio rhai o'r pethau penodol yr ydym wedi'u gwneud sy'n cyd-fynd â'r amcanion a osodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20. Hon oedd blwyddyn olaf y cynllun a chyflwynwyd llawer o'r camau hyn ar ôl cyhoeddi'r ddogfen wreiddiol. Gellir cyrchu'r adroddiadau monitro blynyddol ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar wefan y cyngor er mwyn cael trosolwg o weithgaredd mewn blynyddoedd blaenorol.

Gwneud gwahaniaeth

Gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl neu grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Agorwyd Swyddfa Bost yn Hyb Brynbuga ym mis Mai 2019. Dyma'r tro cyntaf erioed i swyddfa bost gael ei gweithredu gan awdurdod lleol gyda'r nod o gadw gwasanaeth allweddol. Mae gan Swyddfeydd Post sylfaen defnyddwyr uchel ymhlith pobl hŷn tra mae cadw gwasanaethau lleol hefyd yn bwysig iawn i'r rheini ag anabledd.

Dyfarnwyd Achrediad Arian Datblygu Chwaraeon Mewnol Anabledd Cymru i MonLife, gwasanaeth hamdden y Cyngor, gan banel annibynnol. Nod y rhaglen Datblygu Mewnol yw cefnogi a darparu cynwysoldeb i bobl anabl trwy becyn cymorth a ddatblygwyd gan Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'n cefnogi meddwl yn gynhwysol, cynllunio, datblygu a darparu ystod o wasanaethau. Bellach gall staff Gweithredol MonLife ddarparu ar draws y sbectrwm i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl ar ba bynnag lefel y maent yn dymuno cymryd rhan neu gystadlu.

Trwy gyflawni'r safon hon, mae cyfleoedd yn cael eu hehangu, bydd cyfranogiad yn cynyddu, mae pobl anabl yn dod yn fwy egniol ac yn ymgysylltu ac mae gennym ni genedl sydd wedi gwirioni ar chwaraeon am oes. Bydd hyn yn sicrhau newid diwylliannol mewn agwedd, dull gweithredu a darpariaeth gweithgaredd corfforol a chyfleoedd ehangach i bobl anabl.

Cafodd y Cyngor ei dderbyn ar gyfer addewid Ymrwymedig Hyderus yn 2019. Mae hwn yn ymrwymiad a wnaed gan y Cyngor i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ag anableddau ymgeisio am rolau yn y Cyngor ac i fynd ati i wirioneddol gefnogi staff presennol sy'n anabl neu sydd wedi dioddef anabledd.

Cyflwynwyd cynllun cyfweliad gwarantedig ar gyfer Ymadawyr â'r Gwasanaeth Arfog, eu gwŷr a'u gwagedd, a milwyr wrth gefn yn 2019. Roedd hyn er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sydd dan anfantais oherwydd eu hamser yn y gwasanaeth, neu oherwydd materion symudedd dan anfantais wrth geisio cyflogaeth ystyrlon. Mae polisïau a'r gallu i gael gafael ar ddata perthnasol yn cael eu datblygu'n fewnol ar hyn o bryd a bydd monitro'n digwydd yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyflawni ei bwrpas ac yn gweithio'n effeithiol.

Trefnodd Amgueddfeydd Sir Fynwy gaffis cof rhwng cenedlaethau

Trefnwyd Caffi Menopos ym mis Mehefin 2019 yn Neuadd Gymunedol Brynbuga a chofrestrodd y Cyngor i Gaffi'r Menopos <https://www.menopausecafe.net/>

Ailddatganodd y Cyngor ei ymrwymiad i weithio gyda'i gymuned lluoedd arfog gyda seremoni ail-arwyddo'r Cyfamod, ynghyd â'n pum Cyngor Tref (Y Fenni, Trefynwy, Brynbuga, Cil-y-coed a Chas-gwent) a lofnododd y Cyfamod am y tro cyntaf. Credwn fod hyn yn golygu mai Sir Fynwy yw'r unig awdurdod lleol yn y DU sydd â'r prif awdurdod a phob cyngor tref yn llofnodi'r cyfamod yn unfrydol.

Lansiwyd y cynllun Darllen yn Dda ar gyfer Iechyd Meddwl yng Nghymru ym mis Mehefin 2019 (i ymuno â Darllen yn Dda ar gyfer Dementia a ddechreuodd y flwyddyn flaenorol). Mae'r llyfrau ar gael o'n holl Hybiau Cymunedol.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu greddo	
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Yr Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth		Tlodi	
Hil			

Cadw'n Ffocws

Er gwaethaf amserau heriol mae'n rhaid i ni gadw'n ffocws ar y bobl fwyaf agored i niwed rydym yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer

Roeddem yn ymwybodol iawn bod pobl hŷn a'r rhai ag anableddau yn debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan bandemig COVID-19. Sefydlwyd Rhwydwaith Rhithwir Grŵp Gweithredu Gwirfoddolwyr COVID-19 gyda 60 o grwpiau gwirfoddol a chydweithwyr ar draws llawer o feysydd gwasanaeth yn canolbwyntio ar angen preswylwyr; amcangyfrifwyd bod 700 o wirfoddolwyr yn cefnogi eu grwpiau lleol. Ar ein hanterth roedd 76 o gydweithwyr ymroddedig o 15 tîm gwahanol a thri sefydliad allanol yn cefnogi ymateb y gymuned.

Gweithiodd ein Tîm Cydlyniant Cymunedol yn glos gyda'r Gwasanaeth Profi, Olrhain, Amddiffyn i godi ymwybyddiaeth ymhlith cymuned y Bobl Dduon ac Asiaidd a'r lleiafrifoedd ethnig.

Rydym yn paratoi ar gyfer unrhyw heriau yn y dyfodol y gallai COVID-19 eu creu ac yn gweithio ar brosiectau newydd gyda phartneriaid fel Datblygu Sgiliau Digidol a gwasanaeth siopa yn seiliedig ar Gyfeillio Ffôn.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	
Ailbennu rhywedd		Cyfeiriadedd rhywiol	
Priodas neu bartneriaeth sifil		Yr Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	
Hil	x		

Dathlu a Chofio

Mae'n bwysig ein bod yn dathlu / cydnabod digwyddiadau / ymgyrchoedd cydraddoldeb allweddol sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn dangos ein parch fel sefydliad.

Cynhaliwyd digwyddiad Balchder y Gwasanaeth Ieuentid ym mis Gorffennaf yng Nghastell Cil-y-coed. Roedd y digwyddiad yn fwrlwm o weithgaredd gyda cherddoriaeth fyw a gwesteion arbennig gan gynnwys Lisa Power Cyd-sylfaenydd Stonewall ac Emile Harris, a gyrhaeddodd rownd gynderfynol Britain's Got Talent. Roedd y digwyddiad rhad ac am ddim yn rhan o Wyl Amrywiaeth ddeuddydd Sir Fynwy gyda Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn cael ei gynnal ar y dydd Sul fel rhan o'r Penwythnos Amrywiaeth.

Fe wnaethom gynnal digwyddiad Cofio'r Holocaust yn Hyb Cymunedol Cas-gwent ym mis Ionawr i gofio'r miliynau a laddwyd yn yr Holocaust, dan erledigaeth y Natsïaid ac mewn hil-laddiad dilynol yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Soniodd disgyblion Ysgol Cas-gwent am eu hymweliad â gwrsyll crynhoi Sachsenhausen ym Merlin ac, o wefan Diwrnod Cofio'r Holocaust, gwnaethom ddangos clip ffilm am erledigaeth y Natsïaid o bobl anabl. I nodi 75 mlynedd ers rhyddhau gwrsyll crynhoi Auschwitz-Birkenau, cafwyd darlleniad o "The Boy Who Followed His Father into Auschwitz" gan Jeremy Dronfield. Roedd cyflwyniad byr gan iNEED, yr elusen cymorth i ffoaduriaid yn lleol, yn diweddarau'r digwyddiad.

Trefnodd VAWDASV (Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) ddigwyddiad yng Nghastell Cil-y-coed yn Nhachwedd 2019.

Prynodd ein gwasanaeth Llyfrgell Lyfrau i ddathlu Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, mae yn y casgliad gymysgedd o deitlau ffuglen i oedolion ac i oedolion ifanc.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Yr Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	
Hil	x		

Addysgu ac Arwain

Gweithio'n glos gyda staff ynghyd ag Aelodau Etholedig, cynnig hyfforddiant, cyngor ac arweiniad er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.

Rydym yn adolygu ac yn gwella'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn rheolaidd yn gysylltiedig â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried materion tlodi cyn mabwysiadu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd.

Rydym yn cynnal asesiad effaith cronus fel rhan o broses gosod y gyllideb flynyddol. Mae hyn yn edrych ar gynigion a allai, o'u hystyried ar eu pennau eu hunain, gael effaith gyfyngedig ar grwpiau, ond pan fydd yr effeithiau'n cael eu crynhoi, gallai'r effaith bosibl fod yn fwy arwyddocaol ac arwain at effeithiau anghymesur ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Sefydlodd y Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol ddau grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio meysydd lle nad oedd gan aelodau'r lefel briodol o wybodaeth i lywio dewisiadau polisi. Bydd y Grwpiau Cynhwysiant Bwlio a Chynhwysiant Anabledd yn adrodd ar ddadansoddiadau a chasgliadau i'r grŵp. Cytunwyd ar gylch gwaith y ddau grŵp o ganlyniad i dystiolaeth yn codi o "A yw Cymru'n Gymru Decach 2018" ac Asesiad Llesiant Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae'r prosiect 'Stryd Cydraddoldeb', a ddechreuodd yn wreiddiol fel grŵp LGBTQ+, bellach wedi esblygu i gefnogi ystod eang o bobl ifanc ac mae'n darparu amgylchedd diogel i bobl ymlacio, bod yn nhw'u hunain a helpu'u cyfoedion a'r gymuned ehangach. Mae'r prosiect wedi helpu ei aelodau i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a magu hyder yn llwyddiannus, gan arwain at weithio i gynhyrchu Pride digwyddiad person ifanc cyntaf Gwent - a fynychwyd gan fwy na 750 o bobl. Derbyniodd y prosiect wobwr genedlaethol yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid a gynhaliwyd yn y Gogledd ym mis Mehefin 2019.

Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb - comisiynwyd sioe bypedau addysgol ac fe'i cynhaliwyd mewn chwe ysgol gynradd yn Sir Fynwy

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ar gyfer staff fel rhan o raglen Labordy Talent i ddatblygu staff.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil		Yr Iaith Gymraeg	
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Gwneud y Pethau Sylfaenol

Mae'n rhaid i ni wneud yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Adolygwyd a diwygiwyd y polisi recriwtio a dethol o safbwynt cydraddoldeb ac yn benodol i gydnabod yr addewid Anabledd Hyderus a Chyfamod y Lluoedd Arfog

Cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Safonau'r Iaith Gymraeg

Penodwyd Swyddog Cydlyniant Cymunedol newydd

Trefnwyd ystod o sesiynau galw heibio a nosweithiau agored ar gyfer Gwladolion Ewropeaidd yr oedd y Statws Aneddiadau Ewropeaidd yn effeithio arnynt. Roedd y sesiynau yn gyfle i ddod i ddeall y Cynllun Aneddiadau, sut i wneud cais a sut y gallai effeithio ar unigolion, teuluoedd a busnesau.

Nodweddion Gwarchoddedig

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Yr Iaith Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Cyflawni'r Ddyletswydd Benodol

Pwrpas eang y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, fel y Cyngor hwn, wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, a chynorthwyo tryloywder. Yng Nghymru mae'r dyletswyddau penodol yn cael eu gosod gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r adran hon yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol

Mae'r Cynllun ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Mae'r Pwyllgor Dethol Cymunedau Cadarn (Craffu) yn adolygu'r adroddiad monitro blynyddol bob blwyddyn. Mae Grŵp Cyngori ar Gyfiawnder Cymdeithasol hefyd wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth aelod y Cabinet, mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfeiriad i'r agenda ac yn sicrhau bod y cyngor yn symud ymlaen yn ei nodau cytunedig.

Ymgysylltu

Mae trosolwg manwl o'r ymgysylltiad a gynhaliwyd, a sut y targedwyd hwn i sicrhau'r diweddariad gorau posibl o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, wedi'i gynnwys yn atodiad 2 yr adroddiad hwn. Mae'r grwpiau penodol rydym yn ymgysylltu â nhw yn cynnwys:

Fforwm Mynediad i Bawb, Gweithredu 50+ Y Fenni, Grŵp â Nam Golwg Trefynwy.

Ailgychwynnodd y Fforwm Mynediad i Bawb ar 23ain Tachwedd 2018. Mae'r grŵp wedi gweithredu fel ffrind beirniadol gwerthfawr i'r cyngor ac wedi caniatáu i grwpiau ac unigolion anabl drafod materion sy'n effeithio arnynt a gofyn cwestiynau i'r cyngor. Yn fwy diweddar bu problemau o ran cael y cyhoedd i ymgysylltu ac mae trafodaethau parhaus ar sut i ail-fywiogi'r fforwm ymgysylltu pwysig hwn.

Mae'r Fforwm 50+ wedi'i adnewyddu ac mae'n rhoi cyfle i'r aelodau fod yn 'llais' i bobl hŷn yn Sir Fynwy trwy ymgynghoriadau, holiaduron, arolygon, lledaenu gwybodaeth, rhyngweithio rhwng defnyddwyr gwasanaeth a chyflenwr gwasanaeth, sy'n ymwneud â datblygu a darparu gwasanaeth.

Asesiad Effaith

Ers i'r Ddeddf Cydraddoldeb gyflwyno'r gofyniad i sefydliadau gynnal asesiadau effaith o'u penderfyniadau, mae'r cyngor wedi diweddarau ei ganllawiau, ei dempledi a'i brosesau herio dro ar ôl tro i sicrhau bod asesiadau'n gadarn, yn gyfoes ag unrhyw ddatblygiadau

ac yn hawdd eu defnyddio. Mae'r fersiwn gyfredol yn cynnwys y gofynion deddfwriaethol canlynol i ddod yn ddogfen asesu unedig:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ystyried anghenion y rhai sydd â nodweddion Gwarchoddedig,
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Ebrill 2016,
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Rhianta Corfforaethol
- Diogelu
- Tlodi (wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd yn ystod 2020-21)

Er mwyn sicrhau bod yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddigon cadarn i ganiatáu i aelodau etholedig wneud penderfyniadau gwybodus priodol mae is-grŵp sy'n cynnwys y Swyddog Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, y Swyddog Polisi Cynaliadwyedd a'r Rheolwr Perfformiad yn ymgynghoreion ar bob adroddiad a anfonir at y Cabinet neu'r Cyngor. Maent yn adolygu ac yn cynghori ar ansawdd a chadernid holl adroddiadau cysylltiedig yr asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n gofyn am benderfyniad. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol i gynnal sicrwydd ansawdd pellach a dysgu gwersi

Mae'r grŵp bach hwn yn chwarae rhan allweddol wrth graffu ar y cynigion ar gyfer arbedion yn y broses flynyddol o osod cyllideb gan gynghori uwch swyddogion a rheolwyr ar ansawdd eu hadroddiadau, asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a hefyd yr effaith gronnu negyddol bosibl a ddaw yn sgil codiadau mewn ffioedd a thaliadau ar y rheini sydd lleiaf galluog i dalu. Cyflwynwyd y darn pwysig hwn o waith gan ragweld y bydd y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd yn cyrraedd yn fuan.

Gwybodaeth ar gydraddoldeb

I'r Cyngor mae casglu gwybodaeth berthnasol ar gydraddoldeb yn hanfodol o ran adnabod ein defnyddwyr gwasanaeth, eu hanghenion a llunio'r gwasanaethau y mae angen i ni eu darparu. Cydnabyddir yn eang bod heriau sylweddol yn parhau o ran casglu gwybodaeth gywir mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn enwedig ar gyfer rhai o'r nodweddion gwarchoddedig mwy "sensitif" megis cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Rydym wedi datblygu cronfa ddata ar ein gwefan fewnrwyd i wella argaeledd gwybodaeth am grwpiau sydd â'r nodweddion gwarchoddedig er mwyn gwella ansawdd ein hasesiadau effaith integredig. Mae'r Cyngor wedi parhau'n gadarn yn ei gefnogaeth i egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gwybodaeth ar gyflogaeth, gwahaniaethau cyflog a hyfforddiant staff

Mae gennym system casglu data ar-lein sy'n darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y cyngor i ddeall cyfansoddiad ei staff mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig. Mae gwybodaeth am ddechreuwy'r newydd yn cael ei chofnodi'n awtomatig ar y system. Mae'r system ei hun yn ddigon cadarn; fodd bynnag, mae'r cofnodion hanesyddol yn colli rhywfaint o wybodaeth allweddol lle nad yw staff wedi llenwi ffurflenni monitro yn llawn gan arwain at ddealltwriaeth anghyflawn o nifer y staff sydd â nodweddion gwarchoddedig. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth y mae'n ofynnol i ni ei chyhoeddi ar wefan y cyngor yn yr adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar <https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/>

Gwybodaeth ar Ddisgyblaeth a Chwynion 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020:-	
Nifer y cyflogeion a gododd gwynion	18
Nifer y cyflogeion gafodd gwynion wedi'u codi yn eu herbyn	9
Nifer y cyflogeion sy'n destun gweithdrefnau disgyblaeth	42

Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon yn Adroddiad Cyflogau'r Rhywiau ar 2019 – 2020.

Mae gan raglen sefydlu staff y Cyngor adran benodol sy'n delio â Deddf Cydraddoldeb 2010, cydraddoldebau yn gyffredinol a Safonau Iaith Cymru. Yn ystod pandemig Covid-19, disodlwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb gan hyfforddiant ar-lein.

Caffael

Mae proses Gaffael y Cyngor yn defnyddio dogfennaeth Consortiwm Prynu Cymru a ddatblygwyd i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd cymeradwydd y Cabinet gofrestru i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Cofnodi a chyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn unol â gofynion. Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd ar gael mewn fformatau amgen ar gais o'r 18fed Rhagfyr 2020.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024.

Ym mis Ebrill 2020, mabwysiadwyd trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y cyngor. Bydd yn rhedeg hyd at 31 Mawrth 2024 a'i nod yw adeiladu ar y gwaith da a wnaed ers y CCS cyntaf a fabwysiadwyd yn 2012. Mae gan y cynllun diweddaraf set o amcanion strategol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion y cydnabyddir eu bod yn cael effaith andwyol ar bobl yn Sir Fynwy sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r drydedd fersiwn hon wedi ystyried y sylfaen dystiolaeth drylwyr iawn a ddarparwyd ar ffurf yr Asesiad Llesiant, yr Asesiad Anghenion Poblogaeth ac adroddiad "A yw Cymru'n Decach 2018" y Comisiwn Cyfiawnder a Hawliau Dynol." Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio llawer mwy ar fynd i'r afael â materion y nodwyd eu bod yn bodoli yn Sir Fynwy ac mae'n cynnwys elfen sylweddol o weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau hynny.

- **Amcan 1:** Rhoddi i blant y dechreuad gorau posib mewn bywyd gan orchfygu rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfle
- **Amcan 2:** Gorchfygu anghydraddoldebau mewn mynediad i ffyniant economaidd
- **Amcan 3:** Creu cymunedau cydlynus
- **Amcan 4:** Darparu gwasanaethau sy'n hygyrch i'n cyhoedd a chefnogi'r gweithlu
- **Amcan 5:** Creu gweithlu amrywiol a chynhwysol
- **Amcan 6:** Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Covid 19

Mae'r pandemig Coronafirws a ddechreuodd gydio yn gynnar ganol mis Mawrth 2020 wedi gosod her ddigynsail i lesiant a ffordd o fyw pobl. Mae angen oedi rhywfaint o weithgaredd a gynlluniwyd gan fod staff wedi cael eu hadleoli a gwariant wedi'i dargedu tuag at ymateb y cyngor i'r coronafirws.

Mae'n pwrpas wedi esblygu i adlewyrchu'r heriau newydd, datblygwyd nodau strategol i fynd i'r afael â'r her newydd, ac mae'r sefydliad wedi cael y dasg o gyflawni'r rhain. Roedd yn hanfodol bod pob person neu deulu mewn argyfwng yn ymwybodol y gallent gael gafael ar gymorth. Roedd hyn yn cynnwys darparu ysgolion hwb ar gyfer plant gweithwyr allweddol yn ystod y broses gloi, ffonio pob un o'r 3000 o aelwydydd cysgodol yn y sir, talu miliynau o bunnoedd mewn grantiau i gefnogi swyddi busnesau lleol a chydlynu gwirfoddoli cymunedol. Ail-leolwyd cannoedd o aelodau staff fel y gallai'r cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau craidd fel casglu gwastraff a gofal cartref. Os oes unrhyw ddaioni wedi dod allan o'r pandemig hwn, efallai ei fod wedi chwyddo bregusrwydd pobl ar adegau o argyfwng a gobeithio ei fod wedi gwneud y cyngor a'r gymdeithas yn fwy ymwybodol o'u hanghenion a'r anawsterau sy'n cael eu hwynebu pan fydd amseroedd yn anodd.

Atodiad 1

ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth sydd gennym i'w gofnodi?	3
Proffil Gweithlu	3
Bonws Cyflog	4
Bandiau Cyflog Chwartel	4
Casgliadau	4
Ffactorau sy'n effeithio ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau	4
Beth ydym wedi'i wneud	5

Cyflwyniad

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr sydd â 250 neu fwy o weithwyr gofnodi'i Fwlch Cyflog rhwng y Rhywiau bob blwyddyn, gan gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth genedlaethol yn ogystal â gwefan y sefydliad. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn berthnasol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Yn ychwanegol at y rheoliadau newydd hyn, mae cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn rhwym wrth ddyletswydd cydraddoldeb benodol yn y sector cyhoeddus mewn perthynas â'u swyddogaethau - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017. Mae'r rheoliadau'n berthnasol i bob cyflogwr sydd â 250 neu fwy o weithwyr ar y dyddiad "ciplun". Y dyddiad "ciplun" ar gyfer y sector cyhoeddus yw 31 Mawrth bob blwyddyn. Felly, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer pob blwyddyn ar wefan Cyngor Sir Fynwy ac ar wefan y Llywodraeth (GOV.UK), erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol fan bellaf. Felly, ar gyfer y dyddiad "ciplun" ar 31 Mawrth 2020, mae'n rhaid cyhoeddi'r canfyddiadau erbyn 31 Mawrth 2021 fan bellaf. Pwrpas cofnodi Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yw sicrhau mwy o gydraddoldeb rhywiol ledled y DU a chynyddu trylwyrder cyflog. Cofnododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG): Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith yr holl weithwyr oedd

15.5% yn 2020, i lawr o 17.4% yn 2019. Ymhlith gweithwyr llawn amser roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ym mis Ebrill 2020 7.4% i lawr o 9.0% ym mis Ebrill 2019. .

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ddadansoddiad o ddsbarthiad rhyw ar draws y gweithlu. Rhaid inni weld ein Hadroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau fel un llinyn pwysig o'n hagenda amrywiaeth a chynhwysiant ehangach. Credwn fod hunaniaeth rhywedd yn ehangach na 'dynion a menywod' yn unig ac er bod y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi fel hyn yng Nghyngor Sir Fynwy, rydym yn cydnabod ac yn croesawu cydweithwyr o bob hunaniaeth rhyw.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyflog cyfartal i'r holl weithwyr trwy sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynodd y Cyngor Statws Sengl ac mae'n defnyddio cynllun gwerthuso swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (CTLIF) i asesu gwerth holl swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Leol (CCLIL) ar draws y sefydliad, sy'n darparu tystiolaeth i gefnogi bandio pob swydd o fewn ein strwythur graddio. Telir cyflogau yn ôl band ac mae dilyniant blynyddol cynyddrannol o fewn y band yn digwydd waeth beth yw rhyw'r cyflogai.

Beth sydd gennym i'w gofnodi?

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:

- Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau;
- Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau;
- Bonws cymedrig bwlch cyflog;
- Y bonws canolrifol bwlch cyflog;
- Cyfrannau cymharol cyflogeion gwrywaidd a benywaidd ym mhob band cyflog chwarterl..

Proffil Gweithlu

O'r 'dyddiad ciplun' ar 31 Mawrth 2020 roedd proffil gweithlu'r Cyngorau at ddibenion yr adroddiad hwn fel a ganlyn:



Dynion 33.4% Menywod 66.6%


Y cymarebau rhyw Llawn Amser a Rhan Amser oedd:

Rhan Amser 5.48:1


Llawn Amser 1:1.34



Bwlch Cyflog Cymedrig rhwng y Rhywiau



Bwlch Cyflog



Canolrifol

Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod yr awr.

Y bwlch cyflog canolrifol yw'r gwahaniaeth rhwng y pwyntiau canol yn ystod enillion dynion a menywod yr awr.



Bonus Pay

Nid yw Cyngor Sir Fynwy wedi gweithredu unrhyw gynlluniau bonws ers 2009 - ar ôl cyflwyno Statws Sengl.

Bwlch Cyflog Bonws 0%


Bandiau Cyflog Chwarterel

Chwarterel Cyflog Is

£7,524.23 - £20,343.99



Chwarterel Cyflog Canol Is

£20,343.99 - £23,836



Chwarter Cyflog Canol Uchaf

£23,836 - £30,507.11



Chwarterel Uchaf

£30,507.11 - £116,744.29



Casgliadau

Mae Dadansoddiad Chwarterel yn dangos, yn y Canol Uchaf, y bu gostyngiad yng nghanran y dynion o 33.72% i 30.92%, ond mae cyfran gymharol sefydlog o fenywod i ddynion fel y byddech chi'n ei ddisgwyl ar sail cyfran gyffredinol y gweithwyr yn 33.40% dynion i 66.60% menywod. Mae cyfran y dynion i fenywod yn cynyddu yn y chwartereli Uchaf.

Ffactorau sy'n effeithio ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Effeithir yn gryf ar y bwlch cyflog gan gyfansoddiad gweithlu'r Cyngor a'i ddisbarthiad.

Mae mwyafrif staff y Cyngor yn y graddau is, mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog cyffredinol yn cael ei ystumio, gan adlewyrchu cyfansoddiad y gweithlu yn hytrach nag anghydraddoldebau cyflog. Mae hyn yn arbennig o amlwg ym meysydd Glanhau, Arlwyo a Gofal Cymdeithasol, sydd â gweithlu mawr o fenywod sydd, yn gyffredinol, yn gweithio mwy o oriau rhan amser, yn hytrach na rolau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion mewn meysydd fel Priffyrdd, Gwastraff a Thirwedd sy'n tueddu i weithio oriau llawn amser.. Felly, mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn gymaint o fwllch cymdeithasol â bwlch cyflog pur.

Mae gan y Cyngor weithlu sefydlog iawn ac ar gyfer 2019/2020 roedd ganddo gyfradd trosiant isel ar **9.43%**, sy'n golygu mai dim ond ychydig o swyddi gwag sy'n rhoi cyfle i newid yng nghyfansoddiad y gweithlu.

Mae tystiolaeth o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ABOE) ac Arolwg y Llafurlu yn awgrymu na chafodd ffactorau coronafirws effaith nodedig ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2020, a bod y newidiadau a gofnodwyd yn adlewyrchu patrymau cyflogaeth sylfaenol.

Beth ydym ni wedi'i wneud

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i gydraddoldeb yn y gweithle ar ôl cymryd sawl mesur eisoes i sicrhau ei fod yn gyflogwr teg a chyfiawn:

- Trwy sicrhau cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal gan ddefnyddio gwerthuso swyddi.
- Mae gan Gyngor Sir Fynwy 13 gradd gyda phum cynyddiad mewn deg o'r graddau, tri chynyddiad mewn dwy o'r graddau a phedwar cynyddiad yn un o'r graddau. Mae graddau'n rhychwantu PCC 1-51 gyda chyflogau cysylltiedig o £17,842 (SCP 1) i £55,195 (PCC 51). Mae mwy o wybodaeth am Gyngor Taleithiol Llundain a'r graddau i'w gweld yng Nghytundeb Cyd-Statws Sengl y Cyngor. Cyflwynodd gweithredu'r golofn gyflog newydd (gydag effaith o 1 Ebrill 2019) isafswm pwynt colofn cyflog o £9.00 yr awr (£9.25 gydag effaith o 1 Ebrill 2020).
- Hyrwyddo a chefnogi gweithio hyblyg i weithwyr yn y sefydliad, waeth beth bo'u rhyw. Ymhlith yr enghreifftiau mae: rhannu swydd, gweithio'n rhan amser, gweithio hyblyg, ymddeol hyblyg, gweithio yn ystod y tymor, a gweithio o gartref.

Mae'r Cyngor felly'n hyderus nad yw ei fwllch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu dynion a menywod yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Yn hytrach, mae ei fwllch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i'r rolau y mae dynion a menywod yn gweithio yn y Cyngor a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu.

Atodiad 2

Cyfathrebu á thrigolion Sir Fynwy sydd á nodweddion gwarchoddedig 2019-20

Mai 2019

- Cynhaliwyd prosiect ymgysylltu cymunedol yn addurno Esgidiau, uwchgyrchu a phlannu yn Hen Orsaf Tyndyrn i annog pobl i ymweld â Hen Orsaf Tyndyrn fel rhan o'u hyfforddiant ar gyfer Heic Fawr MacMillan. Roedd croeso i bob oedran ddod draw i fwynhau'r gweithgareddau crefft a garddio dros hanner tymor y Sulgwyn. Roedd yr atyniad yn boblogaidd gyda grŵp gwirfoddolwyr yr Hen Orsaf a theuluoedd â phlant ifanc. Roedd esgidiau wedi'u plannu a'u haddurno yn cael eu harddangos yn yr Hen Orsaf trwy'r haf.e.e.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/2324885337532744>

Mehfin 2019

- Dathlu gwirfoddolwyr o bob oed a gallu fel rhan o wythnos y Gwirfoddolwyr, gan annog pobl eraill i wirfoddoli er eu lles eu hunain. Dolen i Gynllun Car Cymunedol Bridges a gwirfoddoli. e.e.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/430510830833179>

- ACE ymgyrch Amser i fod yn Garedig – targedwyd yr ymgyrch at blant a phobl ifanc. Dolen i ACE Hyb Cefnogi Cymru Support e.e.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/542704256134712>

- Prosiect Rhwng Cenedlaethau Tylluanod a Mes gyda phlant yn cwrdd â phobl oedrannus i fwynhau crefftio – e.e.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/194964854781093>

Gorffennaf 2019

- Chwaraeon Sir Fynwy – hyrwyddo gweithgareddau haf ar gyfer plant

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/2278842008864339>

- Ymgysylltu â'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ar draws pob sianel - gofynnwyd i bawb rannu eu meddyliau a'u hadborth naill ai ar-lein neu mewn sesiynau galw heibio cymunedol e.e.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/324101125208273>

Awst 2019

- Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol – cynllun chwarae haf Dechrau'n Deg e.e.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/2496491103740809>

Medi 2019

- Sioe Brynbuga – Pabell yn Sioe Brynbuga i ymgysylltu â'r gymuned a dathlu gwasanaethau ac annog pobl i gymryd rhan yn eu cymuned gan gynnwys MonLife, Gwirfoddoli, Cefn Gwlad, Ailgylchu a Gwastraff. Digwyddiad maethu gofalwyr maeth a gynhaliwyd mewn digwyddiad diolch yn y Babell ar ddiwedd y Sioe i ddiolch i ofalwyr maeth presennol.
- Cyrchu gwasanaethau'r cyngor yn ddigidol fel rhan o'r wythnos ailgylchu - hyrwyddo Monty (Sgwrsfot Dwyieithog Sir Fynwy) ac ap Fy Sir Fynwy.
<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/391227954896729>

Hydref 2019

- Rhowch y Cerdyn Coch i Gŵn yn Baeddu - ymgyrch i annog perchnogion cŵn i godi ar ôl eu cŵn - yn enwedig ar gaeau chwaraeon lle bydd plant yn chwarae e.e. <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/2615962525127983>
- Agoriad Swyddogol y Siop Ailddefnyddio yn Llan-ffwyst - annog pobl i ailgylchu a phrynu eitemau sydd wedi'u haildefnyddio ar safle Mwynderau Dinesig Llan-ffwyst e.e. <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/2828928400453491>
- Tîm Datblygu Cymunedol a Phartneriaeth - annog pobl i gymryd rhan mewn ymgysylltu â'r gymuned e.e. <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/462257084389841> roedd pob grŵp â gwahanol anghenion ledled y Sir yn cymryd rhan yn ddigidol ac wyneb yn wyneb.
- Dathlodd Sir Fynwy'r Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd yn Ysgolion Sir Fynwy - e.e. <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/388340035194944>

Tachwedd 2019

- Tân Gwylt Cil-y-coed - ymgysylltu wyneb yn wyneb ag ymwelwyr yn arddangosfa Tân Gwylt Castell Cil-y-coed i hyrwyddo cyfleoedd i ddod yn ofalwyr cartref neu'n ofalwyr maeth yn Sir Fynwy. Dosbarthwyd taflenni a gwahoddwyd pobl i sesiynau galw heibio'r wythnos ganlynol.
- Tîm Prydau ar Glud i'r Cartref - sut maen nhw'n helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd, galwad i bobl gysylltu.
<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/761058381023672>

Rhagfyr 2020

- Diwrnod Cofio – cefnogaeth i bobl sydd mewn profedigaeth adeg y Nadolig. Galwad i weithredu dan sylw ar gyfer unrhyw un sydd angen cymorth a chefnogaeth adeg profedigaeth e.e.
<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/2451613041719377>

Ymgysylltu â Chyllideb Cyngor Sir Fynwy 2020 / 2021

Roedd y broses ymgysylltu â'r gyllideb yn cynnwys cyfres o gyfathrebu; darparu gwybodaeth am y sefyllfa ariannol, rhannu'r syniadau arfaethedig a galluogi preswylwyr i rannu eu barn.

Crëwyd cyfleoedd i gymunedau ddod yn wybodus fel eu bod yn gallu cymryd rhan ac ymgysylltu â ni ar lefel sy'n briodol iddyn nhw. Roedd ein mecanweithiau yn caniatáu i bobl dderbyn cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag yr oeddent yn teimlo oedd yn angenrheidiol.

Gwefan

Cyhoeddwyd tudalen ar Gyllideb 20/21 <https://www.monmouthshire.gov.uk/budget-2020-2021/>

Roedd y dudalen yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r sefyllfa ariannol a dolenni i gynigion adroddiadau'r cabinet. Roedd yn cynnwys cyflwyniad fideo ynghyd â rhestr o gyfarfodydd cyhoeddus i breswylwyr eu mynychu.

Cyfyngau cymdeithasol

Crëwyd cyfleoedd i bobl ymgysylltu (yn ddigidol neu wyneb yn wyneb). Cynhyrchwyd fideo cyfyngau cymdeithasol yn tynnu sylw at yr elfennau allweddol - <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/704735143266154>

Datganiad i'r wasg

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg i allfeydd cyfyngau lleol, ledled Cymru a chyfyngau cenedlaethol. Roedd y datganiad yn cynnwys gwybodaeth am rai o'r cynigion allweddol a fyddai'n effeithio ar breswylwyr.

Arolwg Ar-lein

Roedd arolwg byr ar gael ar-lein i breswylwyr roi adborth ar y cynigion.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Fe'u cynhaliwyd ar yr amserau ac yn y lleoliadau canlynol:

- 14^{eg} Ionawr yn Llyfrgell Cas-gwent
- 22^{ain} Ionawr yn Llyfrgell Y Fenni

Cyfarfodydd wedi'u targedu

Cynhaliwyd cyfarfod Mynediad i Bawb ar 17^{eg} Ionawr i bobl ag anableddau, rhieni plant ag anableddau, pobl hŷn a sefydliadau â diddordeb i ymuno a rhannu eu meddyliau a'u hadborth.

Ymgysylltu i newid

Cyfarfu'r Cyngor â phobl ifanc grŵp Ymgysylltu i Newid o bob rhan o ysgolion Sir Fynwy yn eu digwyddiad yn y Gynhadledd leuenctid ar 24^{ain} Ionawr i gael eu hadborth ar y cynigion yn y gyllideb.

Twitter a Facebook

Defnyddiwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol y cyngor i rannu gwybodaeth am yr ystod o gyfleoedd y gallai preswylwyr ddarganfod mwy amdanynt a chymryd rhan yn y broses ymgysylltu â'r gyllideb.

Clip Byr ar You Tube

Ffilmwyd cynghorydd yn egluro i breswylwyr effaith sefyllfa'r gyllideb ac yn ateb rhai o'r ymholiadau pwysig sydd wedi dod i'r amlwg gan breswylwyr. Cafodd y clip dderbyniad da ac fe'i rhannwyd ar gyfryngau cymdeithasol, You Tube a'i ymgorffori ar dudalen gyllideb y wefan. - <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/704735143266154>

Ionawr 2020

- 20 Rheswm dros Faethu yn 2020 – targedu pobl a allai gynnig cartref cariadus, caredig i blant a phobl ifanc
- Caffi Cymunedol yn cysylltu pobl ac y natal uniugrwydd – cyfle i bobl o bob oed alw heibio am gwpanaid a sgwrs
<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/650907412367467>

Chwefror 2020

- Technoleg llais i helpu pobl o bob gallu i gysylltu â gwasanaeth Alexa y cyngor - e.e. <https://www.facebook.com/523872957647147/videos/237168427318568>

Mawrth 2020 – Ymateb COVID – cefnogaeth i bawb a galwad ar wirfoddolwyr yn y gymuned i gymryd rhan.

<https://www.facebook.com/523872957647147/videos/1241277702910120>

- Defnyddiwyd cyfryngau digidol a oedd wedi profi'u gwerth i ymgysylltu á phobl yn gyflym:
 - Gosododd y Prif Weithredwr yr agenda arweinyddiaeth o'i gyfrif Trydar personol, gan arwain yr ymateb strategol, cysylltu â phartneriaid a gosod naws bersonol er mwyn annog pobl i gymryd rhan.
 - Roedd sianeli Facebook a Twitter @ MonmouthshireCC yn ffordd wych o gyfathrebu â'r grŵp targed demograffig o bobl 25 - 45 oed.
 - Fe wnaeth fideos, teils cyfryngau cymdeithasol graffig, dyddiaduron fideo a Facebook Lives greu ymwybyddiaeth, ymgysylltu ac annog pobl i gymryd rhan.

- Cysylltwyd pob cyfathrebiad yn ôl â gwefan monmouthshire.gov.uk.
- Ymatebodd Monty, Sgwrsfot Facebook Sir Fynwy i bob ymholiad 24/7.
- Anfonwyd e-byst at wirfoddolwyr, cydweithwyr, aelodau a chynghorwyr tref a chymuned presennol i gymryd rhan.
- Cyflwynwyd cynllun cysylltiadau cyhoeddus parhaus i'r holl wasg leol i godi ymwybyddiaeth, atgyfnerthu negeseuon allweddol a rhoi sicrwydd i bobl heb fynediad at gyfathrebu digidol.
- Cysylltodd 586 o bobl â Chyngor Sir Fynwy a oedd angen cefnogaeth gyda siopa, presgripsiynau, cerdded cŵn a pherson cyfeillgar i siarad â nhw. Roedd hyn, yn y pen draw, yn cadw pobl yn fyw.
- Recriwtiwyd 246 o wirfoddolwyr yn uniongyrchol drwy Gyngor Sir Fynwy (23% dros y targed), aeth cannoedd yn rhagor at grwpiau COVID-19 yn uniongyrchol o fewn pythefnos i'r lansiad.
- Roedd cyfathrebu wedi galluogi sefydlu rhwydwaith cynhwysfawr o 60 o grwpiau gwirfoddol ledled Sir Fynwy yn cynnwys 700 o wirfoddolwyr a gysylltodd â'r grwpiau yn uniongyrchol.
- Roedd un grŵp gwirfoddol COVID-19 yng Nghas-gwent, er enghraifft, yn mynd ar 700 o negeseuon y mis ar gyfartaled i bobl ynysig yn ystod mis Mawrth, Ebrill a Mai.
- Roedd y rhwydweithiau cymdogaeth wedi creu pobl gysylltiedig, wedi gwella'u lles a'u hymdeimlad o berthyn - gwnaed sawl cyfeillgarwch newydd..